



Ein cyf/Our ref: RE/365/20

Llyr Gruffydd AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@senedd.wales

29 Hydref 2020

Annwyl Llyr,

Ysgrifennaf atoch i'ch diweddarau am yr amserlen ar gyfer Cyllideb drafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Ddoe, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd yr Adolygiad o Wariant yn cael ei gynnal ar 25 Tachwedd. Daw'r cyhoeddiad hwn ddyddiau ar ôl i Lywodraeth y DU gadarnhau ei bod wedi penderfynu cynnal Adolygiad o Wariant blwyddyn yn hytrach na'r adolygiad aml-flwyddyn hirddisgwyliedig. Nid yw'r dull tameidiog hwn o ryddhau gwybodaeth o gymorth ac mae'n gwneud y dasg o gynllunio ar gyfer ein cyllideb a'i rheoli yn un anodd iawn.

Wrth gadarnhau, cyn toriad yr haf, bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb ar 8 Rhagfyr, roedd yn amodol ar amseriad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU. Yn anffodus, yng ngoleuni'r cyhoeddiad ddoe, ni fyddwn yn gwybod ein setliad ar gyfer 2021-22 tan 25 Tachwedd. O ganlyniad, mae angen gohirio cyhoeddi Cyllideb Llywodraeth Cymru. Gyda'ch cytundeb, bwriadaf gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ar 21 Rhagfyr yn ystod y toriad. Bydd yr amserlen hon yn sicrhau nad yw'r amser sydd ar gael ar gyfer craffu yn cael ei dorri a'n bod yn rhoi sicrwydd ariannol i'n partneriaid cyflenwi a'n rhanddeiliaid cyn y Nadolig. Yn ei hanfod, bydd hyn yn golygu mabwysiadu amserlen debyg i Gyllideb y llynedd a byddaf yn gwneud datganiad cyn gynted ag sy'n bosibl ar y Gyllideb ddrafft yn yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl y Nadolig. Byddwn yn ddiolchgar iawn o'ch cydweithrediad mewn amgylchiadau sy'n cael eu dylanwadu eto gan ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bwriadaf gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig i'r Aelodau cyn gynted â phosibl i'w diweddarau ar y datblygiadau hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd